Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Meini prawf ar gyfer cwblhau asesiad risg lleol

Ardaloedd cleifion-mewnol acíwt

Mae'r asesiad risg hwn yn seiliedig ar offeryn asesu risg cleifion-mewnol acíwt NHS England. Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar eu gwaith a'u caniatâd i addasu i'w ddefnyddio yng Nghymru.

Medi 2024, Fersiwn 2a

## Diben

Cynorthwyo byrddau iechyd/ymddiriedolaethau a chyflogwyr i gynnal asesiad risg lleol yng nghyd-destun rheoli heintiau feirysol anadlol tymhorol gan ganolbwyntio ar y ffliw, SARS-CoV-2 a Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) ac unrhyw Heintiau Anadlol Acíwt (ARI) fel cânt eu blaenoriaethu yn yr hierarchaeth rheolaethau.(HoC)

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Set o fesurau lliniaru risg wedi'u blaenoriaethu yn y drefn: dileu, amnewid, peirianneg, rheolaethau gweinyddol, a chyfarpar diogelu personol (gan gynnwys cyfarpar diogelu anadlol [RPE]).
- Rhaid i asesiadau risg gael eu cynnal ym mhob maes gan berson cymwys sydd â'r sgiliau, yr wybodaeth, a'r profiad i allu adnabod y peryglon sy'n gysylltiedig â chyfryngau anadlol heintus: gall hwn fod yn gyflogwr, neu'n berson a benodwyd yn benodol i gwblhau'r asesiad risg. Dylid cyfathrebu â gweithwyr yn ystod y broses hon ac ar ôl cwblhau'r asesiad risg.

Gellir defnyddio'r asesiad risg gorffenedig i lenwi systemau rheoli risg lleol.

| **Enw sefydliad y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth** | **Dyddiad yr asesiad cychwynnol** | **Enw'r aseswr a theitl y Swydd** | **Dyddiad adolygu** |
|---|---|---|---|
| | | | |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| Dal neu ledaenu heintiau feirysol anadlol tymhorol:<br><br>SARS-CoV-2<br><br>Y Ffliw<br><br>RSV<br><br>(ac unrhyw Heintiau Anadlol Acíwt (ARI)) | • Cleifion<br>• Staff<br>• Contractwyr<br>• Ymwelwyr | Y newidynnau sy'n effeithio ar yr asesiad risg hwn yw:<br>• Nifer yr achosion o heintiau feirysol anadlol tymhorol yn y gymuned.<br>• Straenau newydd ac amrywolynnau sy'n peri pryder (VOC).<br>• Gwyliadwriaeth o dderbyniadau Haint Sy'n gysylltiedig a Gofal Iechyd (HCAI).<br>• Nifer brigiad o achosion.<br>• Nifer y grwpiau cymwys sy'n cael brechlyn.<br><br>Monitro:<br>• Gallu gweithredol sefydliadol, er enghraifft:<br>  o Pwysau ar yr adran achosion brys (ED).<br>  o Arosiadau ar droli/ aros i gael eu derbyn i'r ysbyty<br>  o Capasiti gwelyau sydd ar gael<br>  o Materion staffio. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ○ Rhyddhau gohiriedig.<br>○ Ystafell sengl a chyfleusterau ynysu.<br>○ Adnoddau glanhau. | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| Dal neu ledaenu heintiau feirysol anadlol tymhorol<br><br>SARS-CoV-2<br><br>Y Ffliw<br><br>RSV<br><br>(ac unrhyw Heintiau Anadlol Acíwt (ARI)) | • Cleifion<br>• Staff<br>• Contractwyr<br>• Ymwelwyr | **Dileu** (gwaredu'r perygl).<br><br>**Ailgynllunio'r gweithgaredd fel bod y risg o ddod i gysylltiad â'r haint yn cael ei ddileu.**<br><br>**Camau lliniaru allweddol** – mae systemau gwirio ar waith i sicrhau:<br><br>• Pan nad yw triniaeth yn frys, ystyriwch ohirio hyn hyd nes y bydd y symptomau'n cael eu datrys – ar yr amod nad yw hyn yn effeithio'n negyddol ar ganlyniadau'r cleifion.<br>• Dylai cleifion y gwyddys neu yr amheuir eu bod yn bositif gyda phathogen anadlol, gan gynnwys SARs-CoV-2, y ffliw ac RSV ac na ellir gohirio eu triniaeth dderbyn gofal gan wasanaethau sy'n gallu gwneud hynny.<br><br>**Cleifion:**<br><br>Sgrinio, brysbennu, gwahanu a phrofi (yn unol â chanllawiau cenedlaethol [Fframwaith profi cleifion ar gyfer hydref/gaeaf 2023 (WHC/2023/037) \| LLYW.CYMRU](#)) yn ei le ar gyfer cyfryngau anadlol e.e. SARs-CoV-2 /RSV/ffliw sy'n berthnasol i'r lleoliad. Rhaid gwneud hyn er mwyn galluogi adnabyddiaeth gynnar ac asesu cleifion yn glinigol cyn mynychu/gweithdrefnau wyneb yn wyneb er mwyn nodi:<br>○ a yw claf wedi'i frechu'n llawn (lle bo'n briodol)<br>○ nad oes gan y claf unrhyw symptomau anadlol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ○ Ar gyfer derbyniadau dewisol, cyfeiriwch at y canllawiau cenedlaethol Fframwaith profi cleifion ar gyfer hydref/gaeaf 2023 (WHC/2023/037) \| LLYW.CYMRU<br>○ Dylai cleifion a dderbynnir fel achosion brys gael eu brysbennu a'u profi yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.<br>○ Cyfyngu ar symudiad cleifion sy'n arddangos symptomau anadlol<br>○ Dilyn protocol clir ar gyfer blaenoriaethu dyraniad ystafell sengl/ynysu | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| | | Staff:<br><br>Mae systemau gwirio ar waith i sicrhau:<br><br>• Na fydd disgwyl mwyach i staff sydd wedi'u brechu'n llawn (lle bo'n briodol) a myfyrwyr y nodir eu bod wedi dod i gysylltiad ag achos COVID-19 cadarnhaol i ynysu. Bydd disgwyl iddynt ddychwelyd i'r gwaith, oni bai eu bod yn symptomatig.<br><br>• Sicrhau bod staff sy'n gweithio ym mhob maes clinigol:<br><br>    ○ Yn cael eu hannog i gael eu brechu'n llawn yn erbyn heintiau anadlol (gan gynnwys COVID-19 a'r ffliw) yn unol â chyngor iechyd y cyhoedd/iechyd galwedigaethol.<br><br>    ○ Yn asymptomatig.<br><br>    ○ Bod staff yn cydymffurfio â'r Cyfarpar Diogelu Personol angenrheidiol a'r hyfforddiant a chanllawiau'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau (IPC) diweddaraf ac yn gallu defnyddio Rhagofalon Seiliedig ar Drosglwyddo (TBP). | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| | | Contractwyr:<br>• Yn asymptomatig pan fyddant ar y safle.<br>• Peidio â mynd i ardaloedd risg uchel heb unrhyw hyfforddiant.<br>• Peidio â mynd i mewn i ardaloedd lle ceir achosion heb asesu'r risg.<br><br>Ymwelwyr<br>• Gallai cyfyngu ar ymweliadau fod yn briodol mewn sefyllfaoedd o achosion.<br>• Yn asymptomatig wrth ymweld (eithriadau yn berthnasol).<br>• Os byddant yn mynd i mewn i ardaloedd risg uchel, rhoddir cyngor ar fesurau IPC cyn mynediad. | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| Dal neu ledaenu heintiau feirysol anadlol tymhorol<br><br>SARS-CoV-2<br><br>Y Ffliw<br><br>RSV<br><br>(ac unrhyw Heintiau Anadlol Acíwt (ARI)) | • Cleifion<br>• Staff<br>• Contractwyr<br>• Ymwelwyr | **Amnewid** (disodli'r perygl)<br><br>**Amnewid y perygl gydag un sy'n lleihau'r risg.**<br><br>**Camau lliniaru allweddol:**<br><br>Nid yw hyn yn uniongyrchol berthnasol nac yn bosibl i ofal iechyd ei gyflawni gan fod angen rhoi triniaeth, felly mae angen rhoi pwyslais ar liniaru risgiau trwy ddulliau rheoli eraill.<br><br>Fodd bynnag, efallai y bydd rhai gwasanaethau yn dal i ystyried defnyddio ymgynghoriadau rhithwir (ffôn neu fideo) a chynnig y rhain lle bo'n briodol i gleifion yr amheuir neu y cadarnhawyd bod ganddynt haint anadlol.<br><br>Ystyried ymgynghoriadau / cyfarfodydd staff neu ymwelwyr rhithwir lle bo'n briodol.<br><br>Gohirio gwaith contractwyr nad yw'n hanfodol mewn ardaloedd lle ceir brigiad o achosion. | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| **Dal neu ledaenu heintiau feirysol anadlol tymhorol**<br><br>SARS-CoV-2<br><br>Y Ffliw<br><br>RSV<br><br>(ac unrhyw Heintiau Anadlol Acíwt (ARI)) | • Cleifion<br>• Staff<br>• Contractwyr<br>• Ymwelwyr | **Peirianneg** (rheoli, lliniaru neu ynysu pobl rhag y perygl).<br><br>Dylunio mesurau sy'n helpu i reoli neu liniaru risgiau, megis awyru, rhwystrau a sgriniau.<br><br>Dylid rhoi blaenoriaeth i fesurau sy'n darparu amddiffyniad ar y cyd yn hytrach na'r rhai sy'n amddiffyn unigolion neu grŵp bach o bobl yn unig.<br><br>Camau lliniaru allweddol:<br>• Sicrhau bod systemau awyru digonol ar waith, h.y. bod argymhellion cenedlaethol mecanyddol/neu naturiol ar gyfer newidiadau aer lleiaf yn cael eu bodloni fel y'u diffinnir ar gyfer y maes gofal. Dylid gwneud hyn ar y cyd â thimau ystadau sefydliadol/cyngor arbenigol gan y grŵp awyru a/neu beiriannydd awdurdodedig ar y ffordd orau o gyflawni'r nifer o newidiadau aer a argymhellir fel y bo'n briodol. Gweler HTM 03-01 Specialised ventilation for healthcare buildings. (Saesneg yn unig) Dylai gwaith cynnal a chadw a monitro systemau awyru fod ar waith i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn parhau i ddarparu'r perfformiad disgwyliedig.<br>• Nodi ardaloedd (clinigol ac anghlinigol) sydd wedi'u hawyru'n wael neu lle mae'r systemau awyru presennol yn annigonol. | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| | | • Gwanhau aer gydag awyru naturiol trwy agor ffenestri a drysau lle bo'n briodol.<br>• Asesu a yw'r ddarpariaeth ystafelloedd (awyru negyddol, niwtral a chadarnhaol) yn ddigonol ac a fyddai'n parhau i fod yn ddigonol pe bai cynnydd yn nifer y cleifion sydd angen ynysu oherwydd haint anadlol. Gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol gydag arweinwyr ysbyty, peirianneg, a staff clinigol i gynllunio ar gyfer creu ystafelloedd/unedau ynysu digonol.<br>• Asesu swyddogaeth y maes gofal a sicrhau nad yw gorlenwi yn broblem – yn enwedig os yw cleifion â heintiau anadlol hysbys neu a amheuir yn cael gofal. Os oes digon o awyru, dylai hyn fod yn faes blaenoriaeth ar gyfer gofalu am gleifion heintiedig. Lle mae gan ofod clinigol newidiadau aer isel iawn ac nad yw'n ymarferol cynyddu'r gwanhau'n effeithiol, yna ystyriwch dechnolegau amgen sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda'r grŵp Ystadau/awyru (e.e. glanhawyr aer/sgwrwyr). Cyfeiriwch at WHBN 04-01 adult in-patient facilities. (Saesneg yn unig) | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| Dal neu ledaenu heintiau feirysol anadlol tymhorol<br><br>SARS-CoV-2<br><br>Y Ffliw<br><br>RSV<br><br>(ac unrhyw Heintiau Anadlol Acíwt (ARI)) | • Cleifion<br>• Staff<br>• Contractwyr<br>• Ymwelwyr | **Rheolaethau gweinyddol** (newid y ffordd y mae pobl yn gweithio).<br><br>**Gweithredir rheolaethau gweinyddol ar lefel sefydliadol (e.e. dyluniad a'r defnydd o brosesau, systemau a rheolaethau peirianyddol priodol, a darparu a defnyddio offer a deunydd gwaith addas) i helpu i atal cyflwyno heintiau; ac i reoli a chyfyngu ar drosglwyddo heintiau mewn gofal iechyd.**<br><br>**Camau lliniaru allweddol** – gwirio systemau sydd ar waith i sicrhau:<br>• Y darperir addysg a gwybodaeth briodol ar reoli heintiau i staff, cleifion, ymwelwyr a chontractwyr.<br>• Y darperir gorsafoedd hylendid dwylo (gan gynnwys hylif diheintio dwylo ag alcohol) ac arwyddion, i sicrhau arferion hylendid da ymhlith staff, cleifion, ymwelwyr a chontractwyr.<br>• Y cynhelir sgrinio, brysbennu a phrofi (yn unol â'r canllawiau cenedlaethol) i alluogi adnabyddiaeth gynnar o heintiau feirysol anadlol tymhorol - SARs-CoV-2, y ffliw, RSV ac unrhyw ARI. | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| | | • Cynhelir gwahaniad yn y gofod a/neu'r amser rhwng cleifion yr amheuir bod ganddynt haint anadlol neu hebddo, yn enwedig mewn ardaloedd llif cleifion megis Adrannau Achosion Brys, drwy:<br>o Amserlennu apwyntiadau a chlinigau<br>o Lleoliad claf ar gyfer cleifion symptomatig, heintus ar eu pen eu hunain neu mewn carfan.<br>o Atal cymysgu heintiau fel SARs-CoV-2 a'r ffliw. Ni chynghorir hyn yn enwedig wrth aros am ganlyniadau profion.<br>• Ar gyfer cleifion y gwyddys neu yr amheuir eu bod yn bositif gyda phathogen anadlol, a lle na ellir gohirio triniaeth, dylid darparu gofal trwy wasanaethau a all weithredu mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o ledaenu'r feirws i gleifion/unigolion eraill.<br>• Darperir gofodau diogel ar gyfer mannau egwyl staff a chyfleusterau newid.<br>• Dylai glanhau ac amlder glanhau yr offer amgylcheddol a chleifion fod yn briodol i'r risg a dylid monitro cydymffurfiaeth yn unol â'r polisi glanweithdra. | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| | | • Lleihau symudiad staff rhwng carfannau/llwybrau anadlol ac an-anadlog – os yw'n hanfodol, yna heb fod nad yn anadlol i anadlol (heb ei heintio i heintiedig).<br>• Nodi symudiadau cleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn ôl gwely a ward/adran i ganiatáu cadw cofnod ac olrhain cyswllt. | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| Dal neu ledaenu heintiau feirysol anadlol tymhorol<br><br>SARS-CoV-2<br><br>Y Ffliw<br><br>RSV<br><br>(ac unrhyw Heintiau Anadlol Acíwt (ARI)) | • Cleifion<br>• Staff<br>• Contractwyr<br>• Ymwelwyr | Cyfarpar diogelu person (PPE)/offer diogelu resbiradol (RPE) (amddiffyn y gweithiwr â dillad diogelu personol).<br><br>Mae gan gyflogwyr rwymedigaeth gyfreithiol - o dan reolaeth Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), i reoli'n ddigonol y risg o ddod i gysylltiad â sylweddau peryglus lle na ellir atal cysylltiad.<br><br>Rhaid gwisgo PPE pan ragwelir amlygiad i waed a/neu hylifau eraill y corff, croen nad yw'n gyflawn neu bilenni mwcaidd neu yn unol â Rhagofalon Rheoli Heintiau Safonol (SICP) a TBPs.<br><br>Mae angen PPE i amddiffyn unigolion, ar ôl gweithio drwy'r asesiad risg, pan na ellir sicrhau rheolaeth ddigonol ar amlygiad i'r perygl ar ôl cymhwyso'r rheolaethau eraill. Ystyrir mai dyma'r mesur lleiaf effeithiol o'r hierarchaeth o reolaethau. Dylid ystyried PPE yn ychwanegol at yr holl fesurau lliniaru blaenorol yn uwch yn yr hierarchaeth rheolaethau. Dylid ystyried masgio cyffredinol yn unol â chanllawiau ARI - icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/ymwrthedd-a-heintiau-gwrthfiotig/atal-a-rheoli-heintiau/adnoddau-ar-gyfer-gweithwyr-gofal-iechyd-proffesiynol/heintiau-anadlol-aciwt-ari/taflenni-ari/mesurau-atal-a-rheoli-heintiau-ar-gyfer-heintiau-anadlol-aciwt-ari/. | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| | | **Camau lliniaru allweddol** – gwirio systemau sydd ar waith i sicrhau:<br><br>• Bod cyflenwad digonol ac argaeledd PPE – gan gynnwys RPE – i amddiffyn staff, cleifion ac ymwelwyr.<br><br>• Mae'n rhaid i'r holl staff y mae'n ofynnol iddynt wisgo RPE er enghraifft FFP3 neu anadlyddion y gellir eu hailddefnyddio fod wedi cael prawf ffitrwydd (mae hyn yn ofyniad cyfreithiol HSE ).<br><br>• Dylai staff a chleifion wisgo masgiau/gorchuddion wyneb yn gywir ym mhob cyfleuster gofal iechyd yn unol â chanllawiau'r IPC.<br><br>• Mae'r holl staff sy'n wynebu sefyllfaoedd clinigol (ac yn cynnwys y rhai sy'n mynd i ardal risg uchel) yn cael eu hyfforddi a'u hasesu mewn gwisgo, dadwisgo, a chael gwared ar unrhyw Gyfarpar Diogelu Personol sydd ei angen. Sicrhau bod ardal bwrpasol ar gyfer gwisgo a dadwisgo a bod yr holl Gyfarpar Diogelu Personol yn cael ei waredu'n ddiogel, gan leihau'r risg o ledaenu halogiad.<br><br>• Ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol y gellir ei hailddefnyddio mae cyfleusterau a phrotocolau digonol ar gyfer dihalogi (glanhau, diheintio ac ati). Mae'r Cyfarpar Diogelu Personol yn cael ei storio'n ddiogel ac mae mewn cyflwr gweithio da. | |

| Beth yw'r peryglon? | Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Safon ofynnol | Pa gamau pellach sydd angen i chi eu cymryd i reoli risgiau? |
|---|---|---|---|
| Os bydd trosglwyddiad yn parhau ar ôl yr asesiad risg hwn, efallai y bydd angen ystyried masgio cyffredinol a/neu'r defnydd estynedig o RPE (FFP3) ar gyfer gofal cleifion mewn sefyllfaoedd penodol e.e. achosion, ardaloedd risg uchel, VOC. | | | |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Cyfeiriadau a Gwybodaeth Ddefnyddiol

Mesurau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt (ARI) ar gyfer Lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Cymru

NIPCM - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru).

Fframwaith profi cleifion ar gyfer hydref/gaeaf 2023 (WHC/2023/037) | LLYW.CYMRU

Cyngor ar feirysau anadlol gan gynnwys COVID-19 i staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: canllawiau | LLYW.CYMRU

Cyflwyno rhaglen frechu RSV 2024 (WHC/2024/032) [HTML] | LLYW.CYMRU

Y rhaglen genedlaethol imiwneiddio rhag y ffliw 2024 i 2025 (WHC/2024/028) [HTML] | LLYW.CYMRU

Fframwaith feirysau anadlol y gaeaf 2024 i 2025 (llyw.cymru)

Gweithio gyda'n gilydd
i greu Cymru iachach

Working together
for a healthier Wales